Nos Wener 8 Awst, 8.00pm

## Stomp y Steddfod

Noson fawreddog o farddoniaeth, chwerthin a chardiau lliw. Un bardd ar bymtheg yn cystadlu am y gorau i ennill y stôl, dan arweiniad y Stompfeistr Arwel “Pod” Roberts. Bydd bar hwyr ar gael.

Tocynnau: £8
Llinell docynnau: 0845 122 1176
Academi: 029 2047 2266
Stondin Academi a Tŷ Newydd ar y Maes

Nos Sadwrn 9 Awst, 8.30pm

## Hanner Pei

Nawr mae’r 90au yn retro. Dathlwch bod yn grwfi gyda Hanner Pei. Yn eu geiriau nhw: “trowch eich *speakers* i fyny, gwisgwch eich Marigolds a thynnwch eich trowsus i lawr am haliad nostalgic”.

Tocynnau: £10
Llinell docynnau: 0845 122 1176

Gellir prynu tocynnau MaesC ar y we - www.eisteddfod.org.uk Llinell Docynnau 0845 122 1176. Gellir prynu tocynnau CaerDydd a Nos a'r Stomp gan yr Academi yn ogystal ar 029 2047 2266.

Cynnig arbennig am docyn wythnos - £50 yn unig (arbed dros £10).

Cynhelir MaesC ar faes carafanau'r Eisteddfod ar gaeau chwarae Blackweir yng nghanol dinas Caerdydd. Codir is-bafiliwn arbennig i'r pwrpas hwn. Bydd bar hwyr ar gael tan 2.00am.

Trefnir MaesC ar y cyd rhwng yr Eisteddfod a'r Academi.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru
40 Parc Tŷ Glas, Llanisien
Caerdydd CF14 5DU

029 2076 3777
gwyb@eisteddfod.org.uk

Academi yw'r Asiantaeth Hyrwyddo Llenyddiaeth Genedlaethol a Chymdeithas Llenorion Cymru.

Academi
Peter Finch - Prif Weithredwr
Tŷ Mount Stuart, Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FQ

029 2047 2266
post@academi.org
www.academi.org

Cefnogir yr Academi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'r Academi'n gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd.

dylunio gan elfen.co.uk

Eisteddfod Genedlaethol
Caerdydd a'r Cylch
2 - 9 Awst 2008

# maesC

cerddi, cerddoriaeth, comedi, craic...

Nos Sadwrn 2 Awst, 8.00pm

## Mynediad am Ddim

Y flwyddyn – 1974. Y lle – Coleg y Brifysgol, Aberystwyth. Dyna lle cychwynodd Mynediad am Ddim eu taith cerddorol. Ymunwch â nhw heno i ganu cân am y dyddiau da.

Tocynnau £8
Llinell docynnau: 0845 122 1176

Nos Sul 3 Awst, 8.00pm

## Delwyn Sion a'r Band

Noson yng nghwmni un o sylfaenwyr Hergest, grŵp a sefydlwyd yng Ngwersyll yr Urdd Glan Llyn yn 1971. Bydd y gerddoriaeth heno yn eich swyno nôl i'r oes aur.

Tocynnau £8
Llinell docynnau: 0845 122 1176

Nos Lun 4 Awst, 8.00pm

## CaerDydd a Nos

24 awr mewn Prifddinas. Cerddoriaeth a barddoniaeth gyda Heather Jones, Catrin Dafydd, Gwyneth Glyn, Rhys Iorwerth ac Owain Rhys. Trefnir y noson ar y cyd rhwng Academi a Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd.

Tocynnau: £8
Llinell docynnau: 0845 122 1176
Academi: 029 2047 2266
Tŷ Newydd: 01766 522811
Stondin Academi a Tŷ Newydd ar y Maes

Nos Fawrth 5 Awst, 8.00pm

## Nôl i'r Cwm

Huw Chiswell – neu 'Chiz' - dewin yr allweddellau, seren bop ac un o *heart-throbs* mwyaf Cymru yr 80au a fydd yn hudo pawb â'i glasuron poblogaidd.

Tocynnau: £8
Llinell docynnau: 0845 122 1176

Nos Fercher 6 Awst, 8.00pm

## Beirdd yn y Doc

Y Prifardd Emyr Lewis yw'r Barnwr a fydd yn dwyn Eurig Salisbury, Emyr Oernant, Iwan Rhys, Y Prifardd Dafydd John Pritchard, Hywel Griffiths, Aneirin Karadog ac eraill o flaen eu gwell. Trefnir y noson gan Barddas gyda chefnogaeth yr Academi.

Tocynnau: £5
Llinell docynnau: 0845 122 1176
Stondin Barddas ar y Maes

Nos Iau 7 Awst, 8.00pm

## Steve Eaves a 9 Bach

Noson o flŵs, jazz a chanu gwerin cyfoes yng nghwmni Steve Eaves a'r grŵp gwerin 9 Bach gyda'r lleisydd hudolus Lisa Jên.

Tocynnau: £8
Llinell docynnau: 0845 122 1176